Cynllun Rhentu Preifat Braenaru Casnewydd

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i greu mwy o gyfleoedd i bobl symud allan o ddigartrefedd i rentu preifat. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn un o nifer o awdurdodau lleol sy'n sefydlu Cynllun Braenaru i dreialu rhaglen newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan gynnig prydles 5 mlynedd i landlordiaid ar eu heiddo er mwyn darparu mwy o sefydlogrwydd i'r rhai sydd angen tai.

Ar gyfer y cynllun hwn, rydym yn chwilio am fflatiau neu stiwdios 1 ystafell wely heb le a rennir.

Mae'r cynllun yn cynnig y canlynol i landlordiaid;

- Prydles 5 mlynedd
- Rhent gwarantedig, a delir yn fisol ymlaen llaw
- Rheoli'r eiddo'n llawn
- Grant cymhelliant o hyd at £2000 os oes angen gwelliannau hanfodol a benthyciad di-log o hyd at £8000, y gellir ei ddidynnu o'r incwm rhent, os yw gwelliannau'n ddymunol

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Sandra Batten ar 01633 233592 neu Rhian Brown ar 01633 851715 neu e-bostiwch housing.strategy@newport.gov.uk